

WILLIAM, THOMAS (1717 - 1765), cynghorwr Methodistaidd, a gweinidog Annibynnol wedyn

Enw: Thomas William
Dyddiad geni: 1717
Dyddiad marw: 1765
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cynghorwr Methodistaidd, a gweinidog Annibynnol wedyn
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 1717, mab melinydd Melin Corrwg, Eglwysilan, Morgannwg. Argyhoeddwyd ef dan weinidogaeth **Howel Harris**, c. 1738. Bu'n ysgolfeistr cylchynol, dechreuodd gynghori gyda'r Methodistiaid, ac apwyntiwyd ef yn arolygwr y seiadau ym Mro Morgannwg yn 1743. Yr oedd yn un o'r rhai a arwyddodd y neges i'r sasiwn yn 1745 ynghylch ordeinio'r cynghorwyr; cafodd ef a'i gyfaill **William Edwards** ryw fath o urddiad tua'r un amser gan seiat y Groes-wen. Cadwodd ei gyswllt â'r Methodistiaid, a bu'n wr ar ddeheulaw **Harris** ym mlynnyddoedd cyntaf y rhwyg rhyngddo a **Daniel Rowland**. Diarddelwyd ef o blaid **Harris** yn 1752, ac enciliodd gyda seiat y Groes-wen at yr Annibynwyr. Bu farw ar daith bregethu yng Nghwm Rhondda, 16 Rhagfyr 1765, a'i gladdu ym mynwent y Cymer.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd (1895-1897)*, i, 228

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, ii, 375-80

T. Thomas, *Hanes Ymneilltuaeth Gynnar yn y Watford*, 12

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd, iv, 41; vi, 14; xxi, 109

R. Bennett, *Methodistiaeth Trefaldwyn Uchaf, 1738â€“1852* (1929), 217

Cardiff Manuscript 4877

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821451

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Roberts, G. M., (1953). WILLIAM, THOMAS (1717 - 1765), cynghorwr Methodistaidd, a gweinidog Annibynnol wedyn. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-THO-1717>

Cyfrwngwlad

Prefatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government